# Prif Astudiaeth TIMSS – Cymru

Saith Cam at Lwyddiant

Hydref 2026 → Ionawr → Chwefror → Mawrth → Ebrill → Mai → Mehefin → Gorffennaf 2027

### 1. Cofrestru ar gyferyr astudiaeth

Dyma lle mae'r cyfan yn dechrau. Byddwn yn cadarnhau manylion eich ysgol, gan gynnwys faint o ddosbarthiadau Blwyddyn 5 sydd gennych a phwy sy'n eu haddysgu. Byddwn hefyd yn gofyn am fanylion banc eich ysgol - mae hyn yn ddewisol oherwydd gellir casglu'r wybodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod y cam olaf os byddai'n well gennych.

### 2. Llythyrau i gartrefi

Ar ôl cofrestru eich ysgol, y camnesaf yw hysbysu rhieni a gofalwyr .Byddwn yn darparu llythyrau ygallwch eu trosglwyddo iddosbarthiadau deth ol, ynamlinellu beth yw TIMSS a'r hyn fy ddyn digwydd.

### 3. Pwy sydd yn ydosbarth?

Nesaf, byddwn yn gofyn am fanylion am eich disgyblion, er mwyn paru disgyblion â'u hathrawon (Ffurflen Cysylltu Myfyrwyr-Athrawon). Mae hyn yn sicrhau bod popeth yn gywir ac yn gwneud yn siŵr bod y disgyblion cywir wedi'u cysylltu â'r athro dosbarth cywir drwy gydol yr astudiaeth.

### 4. Gwiriad technoleg

Cyn diwrnod y prawf, byddwn yn gwneud yn siŵr bod y dechnoleg yn barod. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn cynnal gwiriad cydweddoldeb o ddyfeisiau'r ysgol a chadarnhad terfynol o liniaduron/dyfeisiau, fel na fydd unrhyw broblemau annisgwyl ar y diwrnod mawr.

### 5. Gwybodaeth amgartrefi, yr ysgol a'rathrawon

Mae'r cam hwn yn ymwneud â chyd-destun. Mae'r Holiadur i Gartrefi yn ystyried sut y caiff mathemateg a gwyddoniaeth eu hannog gartref, ac mae'r Holiaduron i Ysgolion ac Athrawon yn dweud mwy wrthym am ddull addysgu eich ysgol.

### 6. Diwrnod prawf TIMSS

Y diwrnod mawr! Byddwn yn cadarnhau pwy yw Gweinyddwr/Gweinyddwyr y Prawf ar gyfer eich ysgol a'r manylion cyswllt perthnasol ymlaen llaw, yna chi fydd yn gyfrifol am gynnal diwrnod y prawf gyda chymorth y gweinyddwr/gweinyddwyr. Dyma lle y bydd popeth yn dod at ei gilydd.

**Cyfnod y Profion: 17 Mai – 2 Gorffennaf**

### 7. âl Diolch a chyfle i ddweud eich dweud

Ar ôl cwblhau'r prawf, mae'n amser i ddweud diolch – mae'r taliadau yn cydnabod cyfranogiad eich ysgol (byddwn yn gofyn am fanylion banc os na fyddwch wedi'u darparu eisoes). A byddem wrth ein bodd yn clywed eich adborth drwy ein Harolwg i Gydlynwyr Ysgol. Mae eich sylwadau yn ein helpu i barhau i wella ar gyfer y tro nesaf.

Copyright 2025 Pearson. All rights reserved.